



**Cymdeithas
Brodwaith
Cymru**

CYLCHLYTHYR HAF 2017

Y Cwrs Preswyl



Rhai o'r aelodau a fynychodd y cwrs eleni

Cafwyd penwythnos llwyddiannus eto y flwyddyn hon a phawb wedi mwynhau. Arbrofwyd mewn sgiliau a thechnegau newydd gan ymestyn y rhai mwyaf profiadol yn ein plith!

Gweithdy toddi a llosgi gawsom eleni yng ngofal mam a'i merch ddawnus, sef Eirlys Savage a Bethan. Roeddent wedi paratoi pecynnau gwaith ar ein cyfer i greu, unai dail hydrefol mewn lliwiau daearol rystig neu flodau a dail mewn lliwiau ysgafn o fioled, pinc, piws a gwyrdd.

Gosodwyd haen wrth haen o ddefnyddiau *organza* wedi'u torri'n ddarnau bach. Yna eu gwneud fel brechdan gyda'r defnydd *solufleece*, cyn eu gwnïo gyda'i gilydd â pheiriant gyda troed arbennig . Llosgwyd y siâp yn ofalus â theclyn priodol gan greu gwaith cywrain a hyfryd dros ben.

Llwyddodd pawb i greu darnau o waith trawiadol a chlodwiw iawn erbyn diwedd y cwrs.

Roedd nifer deilwng o'r aelodau wedi mynychu'r cwrs yn cynnwys cynrychiolaeth dda o'r rhanbarthau, pedair o Fôn ag Arfon, chwech o Feirionnydd a phump o'r Gogledd Ddwyrain.

Ar gyfer chwech aelod Dwyfor, oedd yno am y diwrnod yn unig, fe ddewisont greu blodyn, gan ddefnyddio'r un arddull, ond gan wnïo gyda llaw.

Mae lletygarwch Plas Tanybwllch o'r safon flaenaf, a'r lleoliad yn drawiadol iawn. Cynhaliodd y prydiau bwyd gwych ni, i gario mlaen i wnïo o ddeg y gloch y bore tan bron i ddeg y gloch y nos!

Bore Sul gorffennwyd ac arddangoswyd ein gwaith ar arlwy o wahanol gefndiroedd.

Dyma'r tro cyntaf i mi fynychu'r cwrs penwythnos. Mwynheais rannu profiadau gyda chyfeillion difyr, a chyfeillion o'r un diddordeb ac anian.

Gobeithio y gwelaf chi eto'r flwyddyn nesaf. Diolch o galon i chi Gwyneth am drefniadau'r penwythnos.

Rhiannon Evans, Meirionnydd

Gair o'r Gadair

Mae'n ddiwedd Mehefin erbyn hyn a chyn hir byddwn yn cwrdd i ymweld ag Eisteddfod Genedlaethol 2017 yn Sir Fôn. Bydd stondin y Gymdeithas yno unwaith eto ac arddangosfa o waith yr aelodau i'w weld arno gan obeithio y bydd yna ymateb da i'r thema "Byd Natur".

Diolch i aelodau Môn am fod yn gyfrifol am osod y stondin a chofiwch fod angen stiwardio'r stondin gydol yr wythnos. Dyma gyfle i gwrdd â darpar aelodau a sôn am y Gymdeithas - ac wrth gwrs i werthu tocynnau raffl! Byddwch wedi derbyn tocynnau raffl yn eich canghennau hefyd ac mae'r gwerthiant hwn yn help mawr i gynnal y stondin. Diolch i gangen Dwyfor am fod yn gyfrifol am y wobwr.

Os gallwch helpu i stiwardio wnewch chi nodi hynny ar y daflen fydd ynghlwm â'r cylchgrawn yma? Hefyd mae gwerthiant da ar y nwyddau bychain ar y stondin a bydd angen rhain eto eleni. Diolch i chi ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Mae'n braf cyhoeddi unwaith eto ein bod wedi llwyddo i gefnogi myfyrwraig wrth iddi ddilyn cwrs tecstilau ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Elin Angharad Evans sy'n derbyn ysgoloriaeth y Gymdeithas eleni ac mae am arbenigo mewn gwaith lledr gan gynnwys gwneud esgidiau!

Fe welwch wybodaeth am ein Cyfarfod Blynnyddol yn yr Eisteddfod yn y rhifyn yma hefyd a byddai'n hyfryd cael cynrychiolaeth dda yno i gefnogi'r Gymdeithas. Bydd Gwyneth Jones yn gorffen ei thymor fel ysgrifennydd yn y cyfarfod a diolch iddi am fod yn drefnus, diwyd a hawddgar dros y ddwy flynedd ddiwethaf (a diolch hefyd i Glyn sydd wedi helpu cymaint dros y blynnyddoedd wrth osod y stondin). Ar yr un pryd, hoffwn hefyd ddiolch i Mary Williams, ein Trysorydd trefnus, a fydd yn gorffen ei thymor hithau ym mis Awst.

Mae'n bur debyg y bydd llawer o arbrofi yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd flwyddyn nesa a does dim sicrwydd o gwbl ar hyn o bryd y bydd stondin gennym yno- cawn weld.....!

***** DALIER SYLW *****

Nodyn oddi wrth Esyllt

Ers imi gytuno bod yn gadeirydd y Gymdeithas bron ddwy flynedd yn ol mae wedi bod yn siom nad oes canghennau o'r Gymdeithas yn y de.

Rydw i am gynnal cyfarfod / gweithdy yng Ngorseionon ger Abertawe yn yr hydref i ddechrau grŵp yn yr ardal - y dyddiad i'w benodi.

Fy ebost yw jonesesyllt@yahoo.com.

Cysylltwch ac fe gawn hwyl.

O Ardal i Ardal

Y CANOLBARTH

Mae amser yn hedfan a dyma hi'n ganol haf a chyn bo hir byddwn yn paratoi am dymor newydd. Ond rhaid bwrw'n ôl i adrodd am ein gweithgareddau ers y flwyddyn newydd.

Mair Jones, un o'n haelodau fu'n cynnal y dosbarth ym mis Ionawr. Mae Mair yn wniadwraig brofiadol ac yn medru cynnig llawer o gynghorion inni. Llwyddwyd i greu mat i roi o dan y peiriant gwnïo neu i'w roi drosto i gadw'r llwch i ffwrdd pan fyddo'n segur. Mae pocedi ar y mat - handi iawn i gadw ambell declyn wrth law.

Ym mis Ebrill daeth Esyllt Jones, ein llywydd, atom a chawsom ddiwrnod difyr yn ei chwmni yn ymarfer ac yn arbrofi gyda gwahanol bwythau. Y bwriad yw creu darn o waith, megis clytwaith, a'i addurno â'r pwythau.

Mae'n rhaid cael taith fach yn ystod yr haf a byddwn yn mynd i Landeilo ym mis Gorffennaf. Cewch glywed yr hanes eto.

MÔN AC ARFON

Agorwyd y tymor gyda Chinio'r Hen Galan ym Mryn Eisteddfod, Clynnogfawr, ac yna cyfres o weithdai i greu gwahanol eitemau gan ddefnyddio dulliau a phwythau diddorol. Ariannwyd pob gweithdy gan Arian y Loteri Fawr. Gan ein bod wedi cytuno i gynorthwyo Cefyn Burgess i greu murlun ar gyfer Sain Ffagan canolbwyntiwyd ar feistrolï'r pwyth gorwedd o dan gyfarwyddyd Rhiannon Parry ddechrau Chwefror.

Daeth Eleri Jones atom ym Mawrth i ddangos sut i ddefnyddio defnydd arbennig i wneud Magic, Mwclis a Mwy, ac yn wir roedd y defnydd yn ymateb yn wyrthiol i stêm hetar smwddio!

Yn Ebrill roedd pawb wrth eu bodd yn croesawu Megan Williams yn ôl atom o'i chartref newydd yng Nghaerfyrddin i'n harwain i wneud pyrsiau bychain.

Beryl Morris o Henllan, Dinbych ddaeth atom ym Mehefin i'n hannog i fentro ar bwythau hen a newydd gan ddefnyddio gwahanol edefion.

Un amod derbyn arian y Loteri oedd ar i ni gynnal gweithdai i hybu diddordeb eraill mewn amrywiol grefftau. Cofrestrodd 24 o ferched ar gyfer dau weithdy a gynhaliwyd ym Mhenygroes o dan gyfarwyddyd Rhiannon Parry, a chynhelir gweithdy arall ar 30 Medi.

Diwedd Ebrill aeth 48 ohonom ar daith i Ffair y cylchgrawn *Country Living* yn Alexandria Palace. Roedd digon o waith brodio i'w weld, a manteisiodd sawl un ar y cyfle i ymuno yn y gweithdai crefft oedd ar gael yno. Bore Sul aethom i'r Amgueddfa Cwiltiau Americanaidd yn Bath, a phawb yn dotio at yr Arddangosfa o ffrogiau o'r 1920au a gynhaliwyd yno, ac at y cinio ardderchog a baratowyd ar ein cyfer. Ariannwyd y daith hon, yn ogystal â Thaith yr Haf i Ynys Môn ar 1 Gorffennaf gan y Loteri Fawr.

Cawsom gyfle i fynd i Oriel Môn, Siop Copperfield a Llys Llywelyn Aberffraw am de pawns, pryd daeth Mared McAleavey, Prif Guradur Tecstilïau Sain Ffagan i'n cyfarfod i fanylu ymhellach ar Furlun Cefyn Burgess; a swper yng Ngwesty'r Fictoria Porthaethwy. Bydd yr aelodau'n brodio'r gwaith ar gyfer y murlun bob prynhawn ym Mhabell yr Amgueddfeydd yn Eisteddfod Genedlaethol Môn.

Bwriedir agor y tymor nesaf gyda thaith i Weithdy Ela yn Ysbyty Ifan ar 16 Medi. Yna, yn ystod penwythnos olaf Hydref byddwn yn teithio i Lichfield i weld gwaith brodio yn yr Eglwys Gadeiriol yno, ac yn aros dwy noson yn yr Hilton (NEC B'ham). Croeso i eraill ymuno gyda ni. Cysylltwch -rhiannonp18@btinternet.com

***** Mae'r Eisteddfod Genedlaethol a Menter Iaith Môn yn cydweithio er mwyn cynnal digwyddiad cymunedol i greu fflagiau bychan (bunting) i'w harddangos yn lleol, i baratoi ar gyfer yr Eisteddfod. Cynhelir ein diwrnod Ffoli ar Fflagiau yng Nghanolfan Bro Alaw, Bodedern o 13.30-19.30 ddydd Mawrth 18 Gorffennaf. *****

Y GOGLEDD DDWYRAIN

Beryl, un o'n haelodau oedd yn dechrau'r tymor newydd hefo dosbarth gwneud addurn i gerdyn neu llun hefo chifffon a calico, a gwaith llaw. Hefyd cawsom wneud cas i lyfr bach neu ddaliwr nodwyddau, eto mewn gwaith llaw, a sylwi sut oedd gwahanol bwythau yn adlewyrchu'r gwaith. Roedd 23 ohonom wedi cael diwrnod arbennig yng nghwmni athrawes amryddawn ac amyneddgar iawn.

Mis Mawrth daeth Gwenan Carrington atom. Dosbarth yn seiliedig ar waith Janet Bolton. Nid oes angen mesur na gwneud yn siwr bod y llinellau yn syth yma! Mor wahanol i ni sy'n mesur bob dim, ond ffordd gwych i ddefnyddio'r holl scraps! Syndod oedd gweld mor wahanol oedd pob darn gorffenedig yn edrych. Diolch i Gwenan am agor ein llygaid i ffordd newydd o bwytho.

Diwrnod hamddenol braf gawsom yn Ebrill. Pawb yn dod â gwaith i'w orffen a twtio. Awgrymwyd bod pob aelod yn dod â dau ddarn gorffenedig o waith cwrs a gawsom yn ystod y ddwy flynedd diwetha. Pleser oedd cael gweld cymaint o amrywiaeth o waith roeddem wedi dysgu a meistrolï yn y dosbarthiadau.

Edrychwn ymlaen i ddydd Sadwrn ganol Mehefin pan fyddwn yn diweddu'r tymor ym Melin Brwcws. Bydd pawb yn dod â gwaith llaw i'w wneud a rhannu sgiliau ag eraill. Eleni penderfynwyd bod diwrnod fel hyn yn cymryd lle trip arferol.

MEIRIONNYDD

Cafwyd blwyddyn arall o greu eitemau hardd a chain. Mawr yw ein diolch i Mair Rees ein tiwtor am ei hymroddiad a'i gallu i gynllunio pecynnau i gyd-fynd â phob gwers, gan roi cyfleoedd i ni ddysgu sgiliau a thechnegau newydd.

Ym mis Medi y dasg oedd creu tirlun mewn dull brodio sane'. Roedd chwech rhan o wahanol olygfeydd ac yn wir roedd yn gyfanwaith effeithiol iawn. Dewisodd rhai o'r aelodau i greu cynllun haniaethol gan ddefnyddio cymysgedd o edafedd megis gwlân, ruban neu sribedi o ddefnydd. Gallai'r darlun fod yn fychan neu yn fwy, yn ddibynnol ar drwch y defnyddiau.

Gyda'r Nadolig yn agosáu, ym mis Tachwedd fe wnaethom addurniadau Nadolig. Roedd dewis o bedwar cynllun ac roedd yn anodd iawn dewis un! Roedd torch o ddail celyn, addurn yn defnyddio peiriant gwnïo, defnydd sy'n toddi mewn dŵr gyda defnydd *organza* neu driawd o frodwaith i hongian ar y wal, gwaith yn defnyddio dull *hardanger*, gwaith du a *trapunto*. Roedd dau addurn i'w hongian ar goeden, un pêl o ddefnydd *aida* gydag edau metelaidd arno, neu addurn bychan mewn pwyth pabell ar gefndir mewn edau fetalaidd. Bydd rhain yn drysorau i'w hedmygu pob Dolig i'r dyfodol.

Dechrau'r flwyddyn cawsom ddysgu'r grefft o wneud *Richelieu*. Fel un sydd wedi bod yn edmygu pwythau cywrain ar hen liain bwrdd, neu orchudd ar y soffâ yn y parlwr gorau ers talwm, diddorol oedd gweithio y pwythau dull traddodiadol o wneud *Richelieu* mewn pwyth twll botwm ar dorwaith. Go brin bydd na liain bwrdd acw, ond diolch am gael gwneud sampl bychan.

Diwedd gwyliau'r Pasg cafwyd cyfle i offen gwaith neu wneud tlws bychan i osod ar fag neu ddilledyn. Dewis o bili pala, yn defnyddio pwythau lês nodwydd, neu pwyth pysen a pwyth Brwsel dwbwl. Roedd y ddau ddull yn creu pili pala siap 3D effeithiol iawn. Dewis y mwyafrif oedd tlws o beiriant gwnïo *Singer* a oedd wedi ei fframio mewn cylch bach pren. Edrychai yn hyfryd ac unigryw wedi ei gwblhau.

Arddangosfa Brodwaith

Ar Fawrth 7fed tan Fawrth 11eg cynhaliwyd Arddangosfa o waith Joyce Jones a'i Dosbarth yng Nghricieth yn Oriel Rob Piercy ym Mhorthmadog. Rydym yn hynod o ddiolchgar i Rob am ganiatáu inni unwaith eto ddefnyddio'r Oriel ardderchog sydd ganddo.

Prif amcan yr arddangosfa oedd talu teyrnged i Joyce gan ei bod yn 30 mlynedd ers iddi ddechrau ei dosbarthiadau yn Nghricieth.

Fel y gallwch ddychmygu roedd y gwaith yn hynod o chwaethus a chywrain. Canolbwyntiwyd yn bennaf ar waith Joyce gan mai hi oedd yn dathlu, ac roedd pawb a ymwelodd â'r Arddangosfa wedi dotio at ei gwaith ac yn rhyfeddu at ei dawn. Ie, rhyfeddu at ei dawn o frodweithio ond hefyd at y cynllunio a'r syniadau o greu sydd ganddi.

Fel yr wyf wedi crybwyll eisoes yr oedd gwaith aelodau ei dosbarth yn cael eu harddangos hefyd ond heb gynlluniau celfydd Joyce, ni fuasai yno arddangosfa o gwbl. Mae yna ychydig ohonom oedd yno ers y dechrau bron yn dal ati i ddysgu o hyd gobeithio.

Diolch yn fawr iawn, Joyce am rannu o'rh ddawn a dy syniadau â ni a diolch am oriau o waith cynllunio i wireddu arddangosfa mor wych. Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i ddymuno gwell iechyd i Joyce ac unwaith eto diolch yn ddifffuant iawn iddi am rannu ei thalent â ni. Diolch o waelod calon i ti, Joyce.

Nid oedd tâl mynediad i'r arddangosfa ond roedd cyfle i'r ymwelwyr roi rhodd i'r achos "MotorNeuron" ac fe gasglwyd £562.80. Diolch i chwi i gyd a ddaeth i weld yr Arddangosfa ac am eich rhoddion caredig.

Meinir

CYSYLLTWYR Y RHANBARTHAU

Môn ac Arfon

Gladys Pritchard 01407 762090
gladyspritchard80@gmail.com

Y De Ddwyrain

Marian Evans 02920 843275
johnevas42@uwclub.net

Rhydaman

Megan Bevan 01267 275461
arfynigair@aol.com

Meirionnydd

Rhiannon Evans 07814807130
rhiannoncefnisaf@gmail.com

Y Canolbarth

Eryl Evans 01970 820778
erylwe@yahoo.co.uk

Gogledd Ddwyrain

Mary Mars Lloyd 01824 790276
mary@llysybrynplus.com

Dwyfor

Meinir Lloyd Jones 01766 7707145
llwynhudol@btinternet.com

Gweithgareddau

Mae croeso i bawb ymuno â'r holl weithgareddau – ond i chi gysylltu ymlaen llaw am fanylion ac i sicrhau bod lle!

MEIRIONNYDD

Cynhelir pob cyfarfod yng Nghanolfan Tegid, Y Bala o 10.30 yb. – 3.30 yp.
Os am fynychu cysylltwch â Rhiannon Evans 07814807130 neu Mair Rees 01678 521343 - y Tiwtor

<u>30 Medi 2017</u>	Lampfen , gwaith stwmp neu eitem yn defnyddio pwythau melfed a gobelin	<u>27 Ionawr 2018</u>	Natur ag Edau Gwaith llaw neu beiriant.
<u>18 Tachwedd</u>	Clymwaith, Tatio neu Cwdyn Lafant	<u>21 Ebrill</u>	Hardanger Darlun mewn gwaith tynnu neu ffeltio.

Y CANOLBARTH

Cynhelir pob gweithgaredd yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre o 10.00 yb. – 4.00 yp.
Manylion pellach gan Eryl Evans 01970 820778.

<u>23 Medi</u>	Blodyn oen bach Rhiannon Parry	<u>20 Ionawr</u>	Diwrnod o wnïo yng ngofal Meleri
<u>18 Tachwedd</u>	Defnydd newydd o'r hen Elisabeth Wyn	<u>24 Chwefror</u>	I'w drefnu
		<u>24 Mawrth</u>	Cau pen y mwdwl

Y GOGLEDD DDWYRAIN

Cynhelir pob gweithdy yng Nghanolfan Awelon, Rhuthun o 10.00 yb. – 3.00 yp.
Mae angen rhoi enw ymlaen llaw i'r ysgrifenyddion:
Llinos Roberts 01745 582204 neu Ann Jones 01492512155

<u>16 Medi</u>	Mwclis a mwy gyda Anwen Hughes	<u>25 Tachwedd</u>	Addurniadau Nadolig Barbara Evans ac Ann Jones
<u>21 Hydref</u>	Bobol a Gleiniau gyda Gaynor Thomas	<u>Rhagfyr</u>	Swper

MÔN AC ARFON

Cynhelir y cyrsiau i gyd yn Nhan Lan, Bodorgan.
Manylion pellach gan Gladys Pritchard 01407 762090

<u>16 Medi</u>	Gwibdaith i Ysbyty Ifan i weithdy Ela, Meistres Gwisgoedd yr Eisteddfod Genedlaethol	<u>2 Rhagfyr</u>	Gweithdy Nadoligaidd gyda Sue Williams
<u>7 Hydref</u>	Meistrolï'r Addurnwyr gyda Anwen Bumby neu 'A'- Calonnau gyda Rhiannon Parry	<u>Ionawr 2018</u>	Cinio'r Hen Galan (Lleoliad I'w drefnu)
<u>4 Tachwedd</u>	Brodwaith 3 dimensiwn gyda Rhiannon Parry		

EISTEDDFOD GENEGLAETHOL YNYS MÔN 2017

Mae sôn wedi bod am yr Eisteddfod yn barod gan Esyllt yn ei neges hi ac hefyd yn Adroddiad Cangen Môn ac Arfon. Y thema eleni yw *Byd Natur* a gobeithiwn weld llawer o gynnyrch ar y thema yma yn cael eu harddangos ar y stondin. Rydym i gyd yn ddiolchgar iawn i Gangen Môn ac Arfon am wirfoddoli i roi'r stondin i fyny a'i thynnu i lawr. Bydd yn rhaid i'r holl gynnyrch eu cyrraedd hwy neu Gwyneth Jones, yr Ysgrifennydd, erbyn dydd Gwener 28 Gorffennaf.

Fel arfer, bydd hefyd angen pethau i'w gwerthu ar y stondin, sef darnau bach o waith gydag amcan bris wedi'i nodi arnynt. Mae gwerthiant y pethau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at gostau'r stondin.

Wrth gwrs mae croeso i unrhyw aelod werthu gwaith a fydd yn cael ei arddangos ar y stondin ond bydd yn rhaid i'r pris fod yn glir ar gefn y gwaith, NID ar y bag neu'r bocs y bydd yn dod ynddo.

Unwaith eto carwn atgoffa pob un sy'n rhoi gwaith i'w arddangos neu ei werthu, y bydd yn rhaid iddi/iddo ddod i nôl y gwaith **brynhawn Sadwrn olaf yr Eisteddfod**. Mae hyn yn hollbwysig, gan y gall amgylchiadau ei gwneud yn anodd dod â cherbyd i'r maes ar y diwrnod olaf – a hynny'n golygu ei bod yn anodd iawn i griw bach dynnu'r arddangosfa i lawr a chario popeth oddi ar y maes.

Rhag ofn y bydd perthynas neu ffrind yn casglu'r gwaith ar eich rhan, gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod enw, ynghyd â chyfeiriad / cangen y perchennog, ar gefn pob darn o waith.

Rota

Soniwyd eisoes fod y Gangen leol yn barod i roi'r stondin i fyny ond gwyddom i gyd y byddant hwy'n brysur iawn gyda phob math o weithgareddau eraill hefyd yn ystod yr Eisteddfod. Mae cyfrifoldeb ar y gweddill ohonom ni i roi ychydig o'n hamser i wirfoddoli ar y stondin. Felly os oes gennych amser yn sbâr, rhowch wybod. Mae ffurflen gyda'r cylchlythyr hwn i chi nodi pryd y gallwch fod yno. Cofiwch ei dychwelyd i Meinir os gwelwch yn dda.

Bydd pob sesiwn yn dechrau am 10 y bore ac mae tri chyfnod stiwardio y dydd, sy'n golygu fod angen 4 ar gyfer pob shift, yn ogystal â rhywun i fod yn gyfrifol am bob dydd. Felly, ar gyfer wyth diwrnod yr Eisteddfod, bydd angen 120 o wirfoddolwyr i gyd.

Gallwch ddychmygu pa mor anodd yw dod o hyd i gynifer o gynorthwyyr, ond rwy'n siwr y gallwn ddibynnu ar ein haelodau a'u cyfeillion. Mae mor bwysig dweud wrth bawb am y Gymdeithas a hyrwyddo'i gwaith - a dangos gwaith celfydd ein haelodau i'r byd! Felly, cofiwch roi eich enw i lawr os gallwch helpu ar y stondin – hyd yn oed os na allwch aros am ddim ond rhyw awr.

Aelodaeth

Y ffordd fwyaf cyfleus o dalu eich tâl aelodaeth yw trwy archeb banc, am fod yn rhaid anfon ffurflen bob blwyddyn at y rhai nad ydynt yn gwneud hynny.

Gofynnir i bob Cangen anfon enwau a thâl aelodaeth ei haelodau gyda'i gilydd i hwyluso'r gwaith gweinyddol. Gobeithio'ch bod i gyd yn cenhadu er mwyn denu rhagor o aelodau.

Raffl

Bydd tocynnau raffl ar werth am £1 yr un, gyda'r tocyn buddugol yn cael ei dynnu brynhawn Sadwrn olaf yr Eisteddfod ar stondin y Gymdeithas ar y maes. Y wobwr eleni yw sampler o'r Wyddor wedi'i bwytho gan aelodau Dwyfor. Diolch i bawb fu'n pwytho am eu gwaith. Eleni eto fe ddosbarthwyd rhai o'r tocynnau raffl yn y pwyllgor blynyddol ym mis Ebrill. Gobeithio fod rhai ohonoch wedi medru gwerthu rhai yn barod.

Mae'n rhaid i ni gofio mor bwysig yw i bawb, naill ai'r rhai sy'n gwirfoddoli ar y stondin neu wedi derbyn tocynnau'n barod, i fynd ati o ddifri i werthu'r tocynnau raffl. Oni bai am y raffl, ni fyddai'r Gymdeithas yn gallu fforddio talu am y stondin. A chofiwch mai unrhyw elw a wnawn sy'n ein galluogi i gynnig ysgoloriaeth i fyfyrwyr a bwrsari i'n haelodau.

Llongyfarchiadau

Mae Ysgrifennydd gweithgar Cangen Môn ac Arfon, Gladys Pritchard, eisoes wedi cael ei llongyfarch gan ei Changen ar gael ei dewis, yn haeddiannol, yn un o Lywyddion anrhydeddus yr Eisteddfod. Estynnwn ninnau i gyd ein llongyfarchion i chi Gladys.

Llongyfarchiadau hefyd i un arall o'n haelodau, un sydd wedi bod yn weithgar gyda'r Gymdeithas ers ei sefydlu, sef Meinir Lloyd Jones. Dros y blynyddoedd mae Meinir wedi bod yn Gadeirydd ac Ysgrifennydd yn ogystal â bod yn gysylltydd Dwyfor. Bydd Meinir, a Geraint ei gŵr, yn cael eu hurddo i'r wisg las am eu cyfraniad i'w cymdeithas ym Mhenrhyndeudraeth.

Pob dymuniad da i chi, Gladys a Meinir

Y Cyfarfod Blynyddol

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol eleni ar fore dydd Mercher 9 Awst am 10:00 yb. ym Mhabell y Cymdeithasau 1. Os oes mater y dymunwch ei godi yn y Cyfarfod, cysylltwch â'r Ysgrifennydd ymlaen llaw. Taer erfynnir am bresenoldeb teilwng yn y cyfarfod.

Apêl

Ein apêl, felly, yw ar i gynifer â phosib ddod i gynnal gwaith y Gymdeithas yn yr Eisteddfod, ar y stondin ac yn y Cyfarfod Blynyddol. Mae'n gyfle i weld llawer iawn o hen ffrindiau – a gwneud rhai newydd. Mae'n gyfle hefyd i godi swm da o arian sy'n ein galluogi i gefnogi ein prif Ŵyl ddiwylliannol. Diolch i chi ymlaen llaw – edrychwn ymlaen at eich gweld yno. A chofiwch hefyd i ddod i Gyfarfod blynyddol y Gymdeithas.

Cyfeiriad e-bost

Unwaith eto gofynnwn yn garedig i chi i gyd i anfon eich cyfeiriad e-bost i'r Ysgrifennydd Aelodaeth er mwyn i ni allu torri i lawr ar ein costau. Byddai hyn yn ein galluogi ni i e-bostio'r cylchlythyr ac unrhyw wybodaeth arall i chi. Felly plis, anfonwch eich cyfeiriad e-bost i'r Ysgrifennydd Aelodaeth, sef Gwenfyl ar gwenfyljones@btinternet.com

Swyddogion y Gymdeithas

Sylfaenydd:	Joyce Jones	☎ 01766 522085	E-bost: joyce@stitch.co.uk
Llywydd Cenedlaethol:	Brenda Wyn Jones	☎ 01248 600020	
Cadeirydd:	Esyllt Jones	☎ 01792 898211	E-bost: ionesesyllt@yahoo.com
Is-gadeirydd:	Rowenna Evans	☎ 01678 520698	E-bost: carysrowena@live.co.uk
Trysorydd:	Mary Williams	☎ 01766 522466	E-bost: cmw466@gmail.com
Is-drysorydd:	Buddug Roberts	☎ 01766 522497	E-bost: rhiwcriccieth@gmail.com
Ysgrifennydd:	Gwyneth Jones	☎ 01678 520813	E-bost: feidiog12@gmail.com
Is-ysgrifennydd:	Medwen Charles	☎ 01678 520293	E-bost: maes.meini@lineone.net
Ysg. Aelodaeth:	Gwenfyl Jones	☎ 01745 890417	E-bost: gwenfyljones@btinternet.com
Golygydd:	Margaret Griffith	☎ 01766 810513	E-bost: m.griffith901@btinternet.com

Pytiau o'r Pwyllgor blynyddol

Cynhaliwyd y Pwyllgor Blynyddol eleni ar 29 Ebrill.

Diolchodd Esyllt i bawb fu'n ymwneud â'r stondin yn Eisteddfod Y Fenni ac i Gwyneth am drefnu Cwrs llwyddiannus Tanybwllch.

Cytunodd Esyllt i barhau'n Gadeirydd am flwyddyn arall a chytunodd Medwen Charles i fod yn Is-gadeirydd a Rowenna Evans yn Is-ysgrifennydd. Diolch o galon i'r dair ohonynt.

Diolchwyd i Nesta am ddiweddarau'r safle we, sef www.cymdeithasbrodwaith.cymru, gwefan sy'n werth edrych arni.

Nodwyd hefyd fod 3 peiriant addurno ac un peiriant gwnïo bach ar gael i'w benthyg. Cysylltwch gyda Meinir Lloyd Jones.

Enillydd yr Ysgoloriaeth

Elin Angharad Evans o Benegoes. Powys enillodd Ysgoloriaeth Cymdeithas Brodwaith Cymru eleni am waith lledr arbennig iawn. Gwelwyd enghreifftiau o'i gwaith cywrain yn ystod y cwrs yn Nhanybwllch. Bydd cyfle iddi arddangos ei gwaith ar y stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Dymuniadau gorau iddi i'r dyfodol.

Bwrsari ar gyfer ein haelodau

Mae'r Gymdeithas yn cynnig arian i aelodau i'w galluogi i ddilyn cwrs hyfforddiant o 1, 2 neu 3 diwrnod mewn maes brodwaith o'u dewis.

Pe byddech yn llwyddiannus, byddai disgwyl i chi gynnal nifer bychan o weithdai ar ôl cwblhau'r cwrs, er mwyn rhannu'r hyn y gwnaethoch ei ddysgu gydag aelodau eraill y Gymdeithas.

Cofiwch fod y cymorth yma'n agored i bob oed. Felly beth amdani? Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â'r Ysgrifennydd.

Golygydd y Cylchlythyr: Margaret Griffith, Dwyfach, Chwillog.
Pwllheli, Gwynedd LL53 6TF
Cyhoeddir gan Gymdeithas Brodwaith Cymru
Argraffwyd gan Hywel Evans, 27 Trewen, Dinbych LL16 3HF

**** CWRs PRESWYL 2018 ****

Bydd Cwrs 2018 yn cael ei gynnal ar 3 – 4 Mawrth ym Mhlas Tanybwllch, fel arfer. Y tiwtor fydd Esyllt Jones, ein Cadeirydd. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Medwen Charles.

Dyddiadau i'w Cofio

1 Mehefin: dyddiad cau ar gyfer rhifyn yr haf *Aur Winiadau*.

21 Gorffennaf: dylai pob Cangen anfon ei mantolen at y Trysorydd.

5 Awst: Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ym Mhabell y Cymdeithasau.

30 Tachwedd: dylai pob Cangen fod wedi anfon rhestr o gyfeiriadau ei haelodau at yr Ysgrifennydd Aelodaeth. Mae angen i aelodau unigol anfon eu cyfeiriadau ati hefyd.

31 Rhagfyr: dyddiad cau ar gyfer rhifyn y gaeaf o *Aur Winiadau*.

31 Ionawr: y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am ysgoloriaeth y gymdeithas i fyfyrwyr.

Ebrill: dyddiad a lleoliad y pwyllgor blynyddol i'w benderfynu'n y Cyfarfod Blynyddol. Mwy o wybodaeth yn rhifyn y gaeaf o *Aur Winiadau*.

Defnyddiau Brodio – rhatach!

Cytunodd y siopau canlynol i gynnig gostyngiad i aelodau'r Gymdeithas, dim ond ichi ddangos eich tocyn aelodaeth. Os gwyddoch chi am unrhyw siop fyddai'n fodlon bod ar y rhestr, yna byddai eich cysylltydd lleol yn falch iawn o glywed gennych. Diolch i'r rhai ohonoch sy'n gwneud yn siŵr fod y rhestr hon yn cael ei diweddarau'n gyson.

Canolfan Grefftau Tan Lan, Bodorgan, Ynys Môn.

Kit 'N Kaboodle, Adeiladau'r Banc, Breeze Hill, Benllech, Ynys Môn.

Kit 'N Kaboodle, Tŷ Menai, Ffordd Caergybi, Llanfairpwll, Ynys Môn

Silken Strands, 20 Y Rhos, Bangor (dim disgownt, ond prisiau rhesymol iawn)

Siop D.E., Y Bala

Brethyn Blaenau, 33 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog

Cynnyrch dosbarthiadau'r Gogledd Ddwyrain



... ac ychydig o esiamplau o waith Môn ac Arfon ...



... a chip o gornel o'r arddangosfa yn Oriel Rob Piercy.

